

# Atwrneiaeth

Gwneud yn siŵr bod eich  
dymuniadau'n cael eu parchu



# Ni yw Age Cymru

Age Cymru yw'r elusen genedlaethol i bobl hŷn yng Nghymru.

Rydym yn ymgyrchu, yn ymchwilio ac yn codi arian er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn creu bywyd gwell i bobl hŷn. Rydym yn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed, rydym yn herio ac yn newid agweddau, ac rydym yn brwydro yn erbyn gwahaniaethu pa le bynnag y byddwn yn ei weld.

Rydym yn darparu ystod o wasanaethau a rhaglenni cenedlaethol a lleol yn uniongyrchol i bobl hŷn yn y gymuned, ac yn sicrhau'r safonau gorau fel y gallwch fod yn sicr o gysondeb ac ansawdd pa le bynnag y byddwch yn gweld enw a logo Age Cymru.

Mae ein teulu'n cynnwys partneriaid lleol Age Cymru a phartneriaid cenedlaethol, Age NI, Age Scotland ac Age UK.

Age Cymru  
Tŷ Mariners  
Trident Court  
East Moors Road  
Caerdydd  
CF24 5TD

**029 2043 1555**

**[www.agecymru.org.uk](http://www.agecymru.org.uk)**


Elusen Gofrestredig 1128436

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2021

Paratowyd y daflen wybodaeth hon gan Age Cymru ac Age UK, ac mae'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol yn unig, yr ydym yn gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi. Ni ddylid dehongli unrhyw beth yn y daflen hon fel cyngor penodol, ac ni ddylid dibynnu arni fel sail i wneud unrhyw benderfyniadau na chymryd unrhyw gamau. Nid yw Age Cymru, Age UK nac unrhyw un o'u cwmnïau neu elusennau ategol yn derbyn unrhyw atebolrwydd a ddaw o'i defnyddio. Ein nod yw sicrhau bod y wybodaeth mor gyfredol a chywir â phosibl, ond byddwch yn ymwybodol y gall rhai meysydd penodol newid o bryd i'w gilydd.

# Cynnwys

Beth mae'r canllaw hwn yn ymwneud ag ef	<b>2</b>
Galluedd meddyliol	<b>4</b>
Y gwahanol fathau o atwrneiaeth	<b>6</b>
Dewis twrnai	<b>13</b>
Fy stori i	<b>16</b>
Cyfleu eich dymuniadau	<b>18</b>
Os byddwch chi'n colli galluedd meddyliol	<b>20</b>
Beth os na all unrhyw un siarad ar fy rhan?	<b>22</b>
Gwarchod eich rhyddid	<b>23</b>
Os oes gennych chi bryderon am weithredoedd twrnai	<b>24</b>
Sefydliadau defnyddiol	<b>25</b>



## ***Beth mae'r canllaw hwn yn ymwneud ag ef***

**Nid yw'n hawdd meddwl am adeg pan na fyddwch chi'n gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun mwyach. Ond os daw'r adeg honno, mae trefnu atwrneiaeth yn gallu gwneud bywyd ychydig yn haws.**

Gall y canllaw hwn eich helpu i wneud yn siŵr fod eich dymuniadau'n cael eu parchu os – am ba reswm bynnag – na fyddwch chi'n gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun mwyach, na dweud wrth bobl beth ydynt.

P'un a ydych chi'n gwneud trefniant dros dro i dalu biliau tra'r ydych yn yr ysbyty, neu'n penodi rhywun rydych yn ymddiried ynddo i reoli pethau i chi yn y tymor hwy, bydd y canllaw hwn yn eich arwain drwy'r holl opsiynau, yn eich helpu i ddewis pa rai sy'n addas i chi, a sut i fynd ati i roi trefn arnynt.

---

***“Ar ôl i mi esbonio pwysigrwydd atwrneiaeth, fe wnaeth fy mam ei threfnu. Nawr, mae’n teimlo bod gennym ni un peth yn llai i boeni amdano.” Sandy, 67***

---

Mae’r canllaw hwn yn berthnasol ledled Cymru. Mae fersiwn ar wahân ar gyfer Lloegr, sydd ar gael gan Age UK. I gael gwybodaeth gyfatebol yn Yr Alban neu Ogledd Iwerddon, cysylltwch ag Age Scotland ac Age NI, yn ôl eu trefn.



### **Gwybodaeth ddefnyddiol**

Rydym yn cyfeirio at Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus drwy gydol y canllaw hwn, a gall helpu â llawer o’r pynciau dan sylw. Mae’n syniad da i gadw’r manylion cyswllt wrth law. Gallwch gael mwy o wybodaeth drwy ffonio neu edrych ar y wefan:

Ffôn: **0300 456 0300**

Ar-lein: **[www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-public-guardian](http://www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-public-guardian)**



## ***Galluedd meddyliol***

**Trwy gydol y canllaw hwn, byddwn yn defnyddio'r term 'galluedd meddyliol'. Mae galluedd meddyliol yn golygu eich bod yn gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun a'ch bod yn deall goblygiadau'r penderfyniad hwnnw.**

### **Asesu galluedd meddyliol**

Cyn y gall unrhyw un arall wneud penderfyniad ar eich rhan, mae angen i chi (a nhw) wybod a allwch chi wneud y penderfyniad ar eich pen eich hun.

Os na all rhywun ddeall gwybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniad y mae angen iddo/iddi ei wneud, cadw'r wybodaeth honno mewn cof, gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth honno neu gyfleu'r penderfyniad (ar lafar, gan ddefnyddio iaith arwyddion neu unrhyw fodd arall), dywedir nad yw'n gallu gwneud y penderfyniad hwnnw.

Mae galluedd meddyliol yn wahanol i bawb a gall newid o un diwrnod i'r llall. Er enghraifft, bydd rhai pobl yn gallu gwneud penderfyniadau am bethau penodol. Efallai na fydd pobl eraill yn gallu gwneud penderfyniad ar un adeg, ond wedyn yn gallu gwneud penderfyniad yn ddiweddarach.

Ni ddylai treulio amser yn deall neu gyfleu penderfyniad gael ei gamgymryd am ddiffyg galluedd meddyliol. Ni ddylai fod â chyflwr penodol, ychwaith. Er enghraifft, dydy byw gyda dementia ddim yn golygu na allwch chi wneud unrhyw benderfyniadau, o reidrwydd.

Os ydych chi'n cael trafferth cyfleu eich penderfyniad i rywun, dylai'r unigolyn hwnnw wneud ymdrech i'ch helpu drwy'r anhawster hwnnw bob tro, er mwyn i chi allu mynegi eich dymuniadau.

A rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud penderfyniad ar eich rhan wneud yn siwr ei fod/bod yn gweithredu er eich lles pennaf (gweler tudalennau 13-15).

---

***“Cawsom ein cyngori i drefnu atwrneiaeth ar ôl i'm gwraig gael diagnosis o glefyd Alzheimer.”  
Fred, 81***

---



### **Camau nesaf**

I gael mwy o wybodaeth am alluedd meddyliol a gwneud penderfyniadau, ewch i

**[www.gov.uk/make-decisions-for-someone](http://www.gov.uk/make-decisions-for-someone)**



## Y gwahanol fathau o atwrneiaeth

**Nid oes gan unrhyw un hawl i gymryd rheolaeth dros eich arian neu'ch gofal (hyd yn oed eich priod). Mae angen eich awdurdod chi arnynt.**

Mae atwrneiaeth yn ffordd o roi awdurdod cyfreithiol i rywun rydych yn ymddiried ynndo/ynddi i wneud penderfyniadau ar eich rhan, naill ai os na allwch chi wneud penderfyniadau eich hun neu os nad ydych chi eisiau gwneud hynny.

Mae tri math gwahanol o atwrneiaeth:

### **Atwrneiaeth arhosol (LPA)**

Mae dau fath o atwrneiaeth arhosol: un ar gyfer iechyd a gofal, ac un ar gyfer penderfyniadau ariannol. Gall yr atwrneiaeth arhosol ar gyfer iechyd a gofal ond cael ei defnyddio os byddwch yn colli galluedd meddyliol. Gall yr un ar gyfer penderfyniadau ariannol cael ei defnyddio'n syth ar ôl ei chofrestru.

### **Atwrneiaeth barhaus**

Dyma oedd yr enw ar atwrneiaeth arhosol, ond roedd ar gyfer eiddo ac arian yn unig.

### **Atwrneiaeth arferol**

Ar gyfer penderfyniadau yn ymwneud â'ch arian yn unig – ond mae'n ddilys tra mae gennych alluedd meddyliol yn unig.



## 1. Atwrneiaeth arhosol

Gallwch ond cofrestru atwrneiaeth arhosol (LPA) os oes gennych y galluedd meddyliol i roi'r awdurdod hwn, ac nad ydych wedi cael eich rhoi dan unrhyw bwysau. Gweler tudalen 4 am wybodaeth am alluedd meddyliol.

Nid yw atwrneiaeth arhosol yn barhaol. Gallwch ei chanslo unrhyw adeg tra mae gennych alluedd meddyliol.

### Pa benderfyniadau gall fy nhwrnai eu gwneud?

Mae dau fath gwahanol o atwrneiaeth arhosol: un i wneud penderfyniadau **ariannol** ac un ar gyfer **iechyd a gofal**.

#### a) Atwrneiaeth arhosol ar gyfer penderfyniadau ariannol

Gyda'r opsiwn hwn, gall eich twrnai wneud penderfyniadau am bethau fel:

- gwerthu eich cartref
- talu'r morgais
- talu biliau
- trefnu atgyweiriadau i'ch cartref.

#### Ffeithiau allweddol:

- Chi sy'n penderfynu pa bryd yr hoffech i'r math hwn o atwrneiaeth arhosol ddechrau. Gallai hyn fod tra mae gennych alluedd meddyliol o hyd, neu pe byddech yn colli eich galluedd meddyliol.
- Chi sy'n dewis a all eich twrnai wneud pob penderfyniad ariannol ar eich rhan, neu benderfyniadau penodol yn unig.
- Rhaid i'ch twrnai gadw eich arian chi ar wahân i'w (h) arian ef/hi, a chadw cyfrifon i ddangos hyn.
- Gallwch ofyn am fanylion rheolaidd am faint o arian sydd gennych – a faint a wariwyd. Hefyd, gallwch ofyn i'r manylion hyn gael eu hanfon at eich cyfreithiwr neu aelod o'ch teulu.

## **b) Atwrneiaeth arhosol ar gyfer penderfyniadau iechyd a gofal**

Gyda'r opsiwn hwn, gall eich twrnai wneud penderfyniadau am bethau fel:

- ble y dylech chi fyw
- eich gofal meddygol
- beth ddylech ei fwyta
- pwy y dylech gael cysylltiad â nhw
- pa fathau o weithgareddau cymdeithasol y dylech gymryd rhan ynddynt.

### **Ffeithiau allweddol:**

- Yn wahanol i atwrneiaeth arhosol ar gyfer penderfyniadau ariannol, gall eich twrnai ond defnyddio'r atwrneiaeth hon os nad oes gennych alluedd meddyliol mwyach.
- Gallwch roi caniatâd i'ch twrnai wneud penderfyniadau am driniaeth i achub eich bywyd hefyd.
- Os byddwch yn colli galluedd meddyliol ac nid oes gennych atwrneiaeth arhosol ar waith, bydd unrhyw benderfyniadau am eich gofal iechyd yn cael eu gwneud gan feddygon. Byddant yn ymgynghori â'ch teulu, ond nhw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.



### **Gwybodaeth ddefnyddiol**

Rhaid i chi gofrestru atwrneiaeth arhosol tra mae gennych y galluedd meddyliol i wneud hynny. Os gwnaethoch chi lofnodi atwrneiaeth arhosol tra'r oedd gennych alluedd meddyliol, ond eich bod yn colli galluedd cyn ei chofrestru, gall eich twrnai ei chofrestru ar eich rhan. Cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus am fwy o wybodaeth (tudalen 27).



## Sut ydw i'n trefnu atwrneiaeth arhosol?

Mae pedwar cam syml:

### **1. Archebwch ffurflenni atwrneiaeth arhosol a phe cyn gwybodaeth gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.**

Gallwch lawrlwytho'r ffurflenni (a'u llenwi hyd yn oed) ar-lein yn **[www.gov.uk/lasting-power-of-attorney](http://www.gov.uk/lasting-power-of-attorney)** neu ffonio **0300 456 0300**.

**2. Llenwch y ffurflenni – naill ai eich hunan neu gyda help gan gyfreithiwr neu asiantaeth cyngor lleol.** Gallai cael cyngor proffesiynol atal problemau'n ddiweddarach, yn enwedig os nad ydych chi'n siwr o'r broses neu os yw pethau'n gymhleth. Bydd hyn yn costio mwy i chi, felly mae'n bwysig eich bod yn cadw hynny mewn cof. Os yw eich amgylchiadau'n weddol syml, efallai y byddai'n well i chi gofrestru atwrneiaeth arhosol heb gael cyngor cyfreithiol, drwy ddefnyddio'r canllawiau sy'n dod gyda'r ffurflenni i'w chofrestru. Bydd hyn yn gwneud y broses yn llai costus, ond gallai arwain at gamgymeriadau hefyd, felly ystyriwch yn ofalus beth fyddai'n well gennych ei wneud.

**3. Gofynnwch i ddarparwr tystysgrifau lofnodi'r atwrneiaeth arhosol.** Mae'n rhaid i hyn fod yn rhywun rydych chi'n ei (h)adnabod yn dda neu'n weithiwr proffesiynol fel meddyg, gweithiwr cymdeithasol neu gyfreithiwr, ond ni all fod yn aelod o'ch teulu. Bydd ef/hi yn gyfrifol am gadarnhau eich bod yn deall beth yw'r atwrneiaeth arhosol ac nad ydych chi wedi cael eich rhoi dan unrhyw bwysau i'w llofnodi.

**4. Cofrestrwch yr atwrneiaeth arhosol â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.** Ni all eich atwrneiaeth arhosol gael ei defnyddio nes y byddwch wedi gwneud hyn. Mae cofrestru'n cymryd tua naw wythnos ac yn costio £82. Os ydych ar incwm isel (dan £12,000), efallai y byddwch yn gymwys i gael gostyngiad o 50%. Os ydych chi'n cael budd daliadau penodol, ni fydd rhaid i chi dalu unrhyw beth o gwbl.

---

***“Roeddwn i'n poeni am drefnu atwrneiaeth oherwydd does gen i ddim ffrindiau na theulu agos. Cefais fy nghynghori i benodi rhywun proffesiynol.”***  
***Jean, 93***

---



### **Camau nesaf**

Darllenwch ffeithlen Age UK **Trefnu i rywun wneud penderfyniadau ar eich rhan** am fwy o wybodaeth am fod yn gymwys i gael gostyngiad. Hefyd, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar **0300 456 0300** i weld a yw eich atwrneiaeth arhosol wedi'i chofrestru.



## 2. 2. Atwrneiaeth barhaus

Cafodd atwrneiaethau parhaus (EPA) eu disodli gan atwrneiaethau arhosol ym mis Hydref 2007, ond os gwnaethoch chi drefnu a llofnodi atwrneiaeth barhaus cyn y dyddiad hwn, dylai fod yn ddilys o hyd.

Os oes gennych alluedd meddyliol o hyd, nid oes angen i'ch atwrneiaeth barhaus gael ei chofrestru cyn ei defnyddio. Os nad oes gennych alluedd meddyliol o hyd, mae angen i'ch twrnai gofrestru'r atwrneiaeth barhaus â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus cyn y gall wneud unrhyw benderfyniadau ar eich rhan.



### 3. 3. Atwrneiaeth arferol

Mae atwrneiaeth arferol (OPA) yn ddilys tra mae gennych chi alluedd meddyliol yn unig. Hefyd, gellir ond ei defnyddio i wneud penderfyniadau ariannol, yn hytrach nag am eich gofal neu unrhyw beth arall.

#### **Sut gallaf ei defnyddio?**

Gall atwrneiaeth arferol fod yn ddefnyddiol, er enghraifft, os ydych chi'n mynd i'r ysbyty neu ar wyliau a'ch bod am i rywun allu cadw golwg ar eich arian tra'r ydych i ffwrdd. Neu efallai eich bod yn sâl a'i bod yn anodd mynd i'r banc neu'r swyddfa bost. Gallwch gyfyngu ar y pŵer rydych chi'n ei roi i'ch twrnai fel y gall ymdrin ag asedau penodol yn unig, er enghraifft eich cyfrif banc ond nid eich cartref.

#### **Sut ydw i'n ei threfnu?**

Os hoffech chi drefnu atwrneiaeth arferol, cysylltwch â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol (tudalen 26) neu ceisiwch gyngor gan gyfreithiwr, oherwydd mae geiriad safonol y mae'n rhaid i chi ei ddefnyddio. I ddod o hyd i gyfreithiwr, cysylltwch â Chymdeithas y Cyfreithwyr (tudalen 26) neu *Solicitors for the Elderly* (tudalen 27).

# Dewis twrnai

**Bydd gan eich twrnai lawer o bŵer a chyfrifoldeb, felly mae angen i chi ddewis rhywun (neu rywrai) rydych chi'n ymddiried ynddo/ynddi/ynddynt.**

## **Pwy ddylwn i ei ddewis?**

Gallech chi ddewis rhywun sy'n agos atoch chi, fel partner, aelod o'ch teulu neu ffrind. Fel arall, gallech chi ddewis rhywun proffesiynol, fel cyfreithiwr. Meddyliwch am bwy rydych chi'n credu fyddai'n gallu gwneud penderfyniadau er eich lles pennaf (gweler tudalennau 14-15) a gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi amser iddo/iddi feddwl am y rôl ymlaen llaw.

Bydd angen i bwy bynnag rydych chi'n dewis fod yn 18 oed neu'n hŷn, ac ni all fod yn ofalwr â thâl heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft os ef/hi yw eich unig berthynas. Mae rhai cyfyngiadau ar bwy sy'n gallu bod yn dwrnai. Mae ffeithlen **Trefnu i rywun wneud penderfyniadau ar eich rhan** Age UK yn cynnwys mwy o wybodaeth am hyn.

## **Dewis mwy nag un twrnai**

Gall fod yn syniad da penodi mwy nag un twrnai, ond bydd angen i chi benderfynu a fydden nhw'n gwneud penderfyniadau ar y cyd neu beidio. Hefyd, meddyliwch am benodi twrneiod amgen rhag ofn na fydd rhywun yn gallu gweithredu ar eich rhan mwyach.



## **Gwybodaeth ddefnyddiol**

Er y gall twrnai amhroffesiynol (fel aelod o'ch teulu neu ffrind) hawlio treulio yn unig, fel costau teithio rhesymol, yn ei rôl, gall twrnai proffesiynol godi tâl am ei (h)amser hefyd.

## Gweithredu er eich lles pennaf

Sut dylai twrnai eich helpu i wneud penderfyniadau – neu eu gwneud ar eich rhan? Mae angen i bob twrnai ddeall a dilyn egwyddorion penodol sydd wedi’u hamlinellu yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 a’i Chod Ymarfer.

Dywed y Ddeddf y dylai pob twrnai wneud y canlynol:

- **Tybio bod gennych y galluedd meddyliol.** Rhaid i’r twrnai dybio yn y lle cyntaf y gallwch wneud penderfyniad eich hunan cyn ei wneud ar eich rhan.
- **Eich helpu i wneud penderfyniad.** Rhaid i chi gael cymaint â phosibl o gymorth ymarferol i wneud eich penderfyniad eich hun cyn i unrhyw un benderfynu na allwch chi ei wneud. Er enghraifft, os ydych chi’n gallu deall pethau’n well ar adeg benodol o’r dydd, dylech chi gael eich helpu i wneud penderfyniad bryd hynny. Neu efallai eich bod yn gallu deall neu gyfathrebu’n well gan ddefnyddio lluniau neu iaith arwyddion.
- **Eich galluogi i wneud ‘penderfyniadau ffôl’.** Nid yw’r ffaith y gallech chi wneud penderfyniadau nad yw pobl eraill yn cytuno â nhw yn golygu na allwch chi eu gwneud.
- **Dewis y penderfyniad lleiaf cyfyngol.** Dylai’ch twrnai ystyried yr holl opsiynau a dewis yr un sy’n cyfyngu leiaf ar eich hawliau a’ch rhyddid.



## Gwybodaeth ddefnyddiol

Gallwch chi ganslo eich atwrneiaeth arhosol cyn belled â bod gennych chi’n galluedd meddyliol. I’w chanslo, dylech:

- ysgrifennu at y twrnai/twrneiod i roi gwybod am eich penderfyniad
- ysgrifennu at Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus i ofyn iddi gael tynnu oddi ar y gofrestr.



## • **Gweithredu er eich lles pennaf.**

Mae hyn yn golygu:

- gwneud popeth posibl i'ch annog i fod yn rhan o'r penderfyniad
- ystyried eich teimladau nawr ac yn y gorffennol, yn enwedig unrhyw ddymuniadau y gwnaethoch chi eu mynegi, mewn datganiad ymlaen llaw (gweler tudalen 19)
- ystyried unrhyw rai o'ch credoau a gwerthoedd a allai ddylanwadu ar y penderfyniadau
- siarad â phobl eraill – fel teulu, gofalwyr neu ffrindiau – sy'n gwybod am eich teimladau, eich credoau a'ch gwerthoedd, ac sy'n gallu awgrymu beth allai fod er eich lles pennaf
- parchu eich hawl i breifatrwydd bob amser, a chydabod efallai na fydd yn briodol rhannu gwybodaeth amdanoch chi â phawb
- gwybod am unrhyw eithriadau, fel os ydych chi wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol (gweler tudalen 18).



### **Camau nesaf**

Efallai yr hoffech chi neu'ch twrnai ddarllen cod ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'n rhoi arweiniad clir ac ymarferol ar sut i ymgymryd â rôl twrnai neu ddirprwy (mae gwybodaeth am ddirprwyon ar dudalen 23).

Gallwch ei lawrlwytho'n rhad ac am ddim drwy fynd i **GOV.UK** a chwilio am 'Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol' neu brynu copi ohono o siop lyfrau.



## *Fy stori i*

### **Mae atwrneiaeth arhosol wedi galluogi Irene a Jenny i baratoi ar gyfer y dyfodol.**

Bu Irene, 72, a'i phartner, Jenny, yn bâr am 37 o flynyddoedd. Ers i Jenny gael diagnosis o ddementia fasgwlar, mae Irene wedi dod yn ofalwr amser llawn iddi. Trefnodd Jenny atwrneiaeth arhosol (LPA) tra'r oedd ganddi'r galluedd meddyliol i wneud hynny.

'Roedd gen i gymaint i ymdopi ag ef pan gafodd Jenny ddiagnosis yn gyntaf, a doedd y pethau ymarferol ddim ar frig y rhestr. Fodd bynnag, fe wnaeth fy ffrindiau fy annog i roi trefn ar bethau.



‘Cefais gyngor a helpodd ffrind i ni lenwi’r ffurflenni a threfnu atwrneiaeth arhosol ar gyfer penderfyniadau ariannol. Roedd ein cyfrifon banc yn enwau’r ddwy ohonon ni’n barod, ond roedd gennym ni rywfaint o arian roedden ni eisiau ei fuddsoddi er mwyn i ni allu ei ddefnyddio i dalu am ofal Jenny, pe byddai angen, felly es i i weld cynghorydd ariannol hefyd.

‘Cefais gopi o’r atwrneiaeth arhosol a’i roi i’r cwmni a oedd wedi buddsoddi arian ar ein rhan. Mae hyn yn golygu y bydd yn derbyn fy mod i’n gallu ymdrin â chyfran Jenny o’r arian, er mwyn i mi allu mynd ato yn ôl yr angen.

‘Dwi wedi bod yn gyfrifol am wneud yr holl benderfyniadau am ddwy flynedd. Ni fyddwn i’n gwneud unrhyw beth heb ei drafod gyda Jenny. Mae hi’n ymddiried ynof i wneud y penderfyniadau gorau ar ei rhan. Mae bod ag atwrneiaeth arhosol wedi ein galluogi i ddarparu’n briodol ar gyfer y dyfodol.’

# Cyfleu eich dymuniadau

**Tra mae gennych chi'r galluedd meddyliol, gallwch chi wneud penderfyniadau am eich gofal. Mae hyn yn cynnwys y mathau o driniaeth feddygol yr hoffech eu cael, neu y byddech chi'n eu gwrthod, pe na fyddech chi'n gallu gwneud neu gyfleu eich penderfyniadau eich hun yn y dyfodol.**

Mae gennych chi ddau ddewis: penderfyniad ymlaen llaw (sydd weithiau'n cael ei alw'n 'ewylllys fyw') neu ddatganiad ymlaen llaw.

## **Penderfyniad ymlaen llaw**

Gallwch wneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol. Mae hyn yn golygu amlinellu'r union fathau o driniaeth na hoffech eu cael a'r amgylchiadau pan fyddech chi'n eu gwrthod.

Os byddwch yn penderfynu gwrthod unrhyw driniaeth i gynnal eich bywyd, er enghraifft cael eich rhoi ar beiriant anadlu, mae angen i chi gofnodi hynny'n ysgrifenedig, ei lofnodi a'i ddyddio. Fel arall, mae datganiad llafar yn iawn, ond dylech chi wneud yn siŵr fod y manylion yn cael eu hychwanegu at eich nodiadau meddygol fel y gall unrhyw feddyg sy'n eich trin eu gweld.



## **Gwybodaeth ddefnyddiol**

Os ydych chi wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw ac eisiau creu atwrneiaeth arhosol ar gyfer penderfyniadau iechyd a gofal, bydd angen i chi anfon copi o'r penderfyniad ymlaen llaw gyda'ch cais am atwrneiaeth arhosol er mwyn nodi unrhyw wrthdaro.

Yng Nghymru a Lloegr, mae penderfyniad ymlaen llaw yn gyfreithiol rwym, felly mae'n rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol ei ddilyn. Rhowch wybod i'ch teulu ac unrhyw weithwyr meddygol proffesiynol fod gennych benderfyniad ymlaen llaw, ac edrychwch arno'n gyson i wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu eich dymuniadau o hyd.

---

***“Lluniais i ddatganiad ymlaen llaw i roi gwybod i'r rhai sy'n agos ataf ba fath o ofal sydd ei eisiau arnaf.” Andrew, 79***

---

### **Penderfyniad ymlaen llaw neu atwrneiaeth arhosol**

Os oes gennych benderfyniad ymlaen llaw ac atwrneiaeth arhosol (LPA) ar gyfer iechyd a gofal – a'u bod yn ymwneud â'r un penderfyniad – yr un diweddaraf sy'n cael blaenoriaeth. Os byddwch yn creu penderfyniad ymlaen llaw ar ôl cofrestru atwrneiaeth arhosol ar gyfer iechyd a gofal, ni fydd eich twrnai'n gallu cytuno ag unrhyw driniaeth rydych chi wedi'i gwrthod yn eich penderfyniad ymlaen llaw.

### **Datganiad ymlaen llaw**

Mae datganiad ymlaen llaw yn cwmpasu eich hoffterau a'ch gwerthoedd mewn perthynas â gofal yn y dyfodol. Er enghraifft, gallai gynnwys eich credoau crefyddol, beth rydych chi'n hoffi ei fwyta, neu hyd yn oed a yw'n well gennych gael bath neu gawod. Nid yw'n gyfreithiol rwym, ond mae'n gofnod o'ch dymuniadau a'ch hoffterau i unrhyw un sy'n gysylltiedig â gofalu amdanoch.



### **Camau nesaf**

Darllenwch ffeithlen **Penderfyniadau ymlaen llaw, datganiadau ymlaen llaw ac ewyllysiau byw** Age UK.

# Os byddwch chi'n colli galluedd meddyliol

**Os byddwch chi'n colli galluedd meddyliol ac mae gennych atwrneiaeth, bydd y twrnai'n gallu gwneud penderfyniadau er eich lles pennaf. Fodd bynnag, os byddwch chi'n colli galluedd ac nid oes gennych atwrneiaeth, gall pethau fod yn fwy cymhleth.**

## **Beth os byddaf yn colli galluedd cyn creu atwrneiaeth?**

Os daw amser pan na fyddwch yn gallu gwneud penderfyniad penodol oherwydd eich bod wedi colli galluedd meddyliol, ac nid ydych wedi creu atwrneiaeth arhosol neu atwrneiaeth barhaus ddilys, efallai y bydd angen cynnwys y Llys Gwarchod.

Gall y Llys Gwarchod:

- benderfynu a oes gennych chi'r galluedd meddyliol i wneud penderfyniad
- gwneud gorchymyn yn ymwneud â'ch penderfyniadau iechyd a gofal neu benderfyniadau yn ymwneud ag eiddo ac arian, os nad oes gennych y galluedd meddyliol
- penodi dirprwy i wneud penderfyniadau ar eich rhan os nad oes gennych y galluedd meddyliol.

Mae ganddo bwerau ehangach hefyd i ddatrys anghydfodau a gwarchod y rhai sydd wedi colli galluedd.

Gall rhywun sydd eisiau gwneud penderfyniadau ar eich rhan wneud cais i'r Llys i gael ei benodi/phenodi'n ddirprwy – sef rôl debyg i rôl twrnai.

Bydd y Llys yn ystyried a fydd angen rhywun arnoch i wneud penderfyniadau parhaus ar eich rhan, a ph'un a yw'r unigolyn sy'n gwneud cais yn addas ar gyfer y rôl honno. Fel arfer, bydd y Llys yn gwneud popeth drwy'r post, felly ni fydd angen i chi fynd i wrandawiaadau.

## Beth yw dirprwy?

Mae gan ddirprwy gyfrifoldebau tebyg i dwrnai. Gall weithredu o fewn yr awdurdod sydd wedi'i bennu gan y Llys yn unig, ac mae ganddo/ganddi ddyletswydd i weithredu â phob ewylllys da, heb fanteisio ar ei sefyllfa er ei (l)les ei hun. Fel y cyfryw, mae'n rhaid iddo/iddi ddilyn yr un egwyddorion â thwrnai (gweler tudalennau 14-15), gwneud popeth posibl i'ch helpu i wneud eich penderfyniadau eich hun, a sicrhau bod unrhyw benderfyniadau y mae'n eu gwneud er eich lles pennaf.

Mae dau fath o ddirprwy: dirprwy eiddo a materion ariannol, a dirprwy lles personol. Fel arfer, bydd dirprwyon lles personol yn cael eu penodi mewn amgylchiadau prin yn unig, er enghraifft pan fydd y rhai sy'n darparu gofal neu driniaeth yn anghytuno ynghylch beth i'w wneud er lles pennaf yr unigolyn.

Mae bod yn ddirprwy yn gyfrifoldeb mawr, felly dylai unrhyw un sy'n cael ei (g)ofyn i fod yn ddirprwy ystyried a yw eisiau ymgymryd â'r rôl, neu a fyddai rhywun arall yn fwy priodol.

Cysylltwch â'r Llys Gwarchod (tudalen 26) am fwy o wybodaeth am fod yn ddirprwy.

Darllenwch ganllaw **GOV.UK** ar **Sut i fod yn ddirprwy eiddo a materion** ar-lein, neu darllenwch ffeithlen Age UK **Trefnu i rywun wneud penderfyniadau am eich cyllid neu eich lles**.



### Gwybodaeth ddefnyddiol

Ni allwch chi ddewis eich dirprwy a gall y broses o benodi un fod yn faith ac yn ddrud. Mae'n llawer gwell cael atwrneiaeth arhosol ar waith.



## ***Beth os na all unrhyw un siarad ar fy rhan?***

Os na allwch chi wneud penderfyniadau pwysig penodol yn y dyfodol ac os nad oes unrhyw un sy'n gallu siarad ar eich rhan, fel aelod o'ch teulu neu ffrind, rhaid cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol (EGMA) i warchod eich hawliau.

Yn y sefyllfa hon, rhaid cynnwys EGMA mewn penderfyniadau am driniaeth feddygol ddifrifol neu newid o ran llety. Gellir ei gynnwys/chynnwys mewn penderfyniadau yn ymwneud ag adolygu gofal neu weithdrefnau amddiffyn oedolion hefyd. Mae staff y GIG neu eich cyngor lleol – er enghraifft meddygon, gweithwyr cymdeithasol neu staff cartrefi gofal – yn gyfrifol am gyfarwyddo EGMA.



### **Camau nesaf**

Cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (tudalen 27) am fwy o wybodaeth am rôl EGMA.



# Gwarchod eich rhyddid

Os nad oes gennych alluedd meddyliol, efallai y bydd adegau pan fydd eich rhyddid neu eich annibyniaeth yn cael ei gyfyngu i'ch cadw'n ddiogel. Er enghraifft, os oes gennych ddementia, efallai na fyddwch yn gallu gadael cartref gofal neu ysbyty ar eich pen eich hun, neu efallai y bydd staff yn penderfynu ar y math o ofal y byddwch yn ei gael.

Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn bodoli i warchod pobl mewn cartrefi gofal neu ysbytai nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau. Y nod yw gwneud yn siŵr y bydd eich rhyddid yn cael ei gyfyngu dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol i'ch cadw chi'n ddiogel a rhoi'r gofal neu'r driniaeth sydd ei (h)angen arnoch. Rhaid i hyn gael ei awdurdodi cyn cytuno arno.

Os ydych chi wedi creu atwrneiaeth arhosol neu benderfyniad ymlaen llaw yn gwrthod triniaeth benodol neu fath penodol o ofal, dylai staff wirio bod eich twrnai neu ddirprwy a benodwyd gan y llys yn parchu eich dymuniadau. Ni ddylai staff awdurdodi'r penderfyniad os yw'n groes i'ch dymuniadau.



## Camau nesaf

Darllenwch ffeithlen Age UK **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.**

# Os oes gennych chi bryderon am weithredoedd twrnai

Os ydych chi, neu ffrind neu berthynas, yn credu efallai nad yw twrnai'n gweithredu er eich lles pennaf, neu'n ei fod/bod yn camddefnyddio ei bwerau/phwerau, cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG).

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gyfrifol am ymchwilio i bryderon am dwrnai. Gall roi gwybod i'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol, os yw hynny'n briodol.

**Os yw'r sefyllfa'n un ar frys ac y gallech fod mewn perygl, gallwch gysylltu â'r heddlu eich hun.**

Gallech chi ddod â'r mater i sylw **tîm amddiffyn oedolion gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol** hefyd. Mae manylion cyswllt ar gyfer yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: **[www.llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-awdurdod-lleol](http://www.llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-awdurdod-lleol)**

Gallwch siarad â rhywun yn gyfrinachol am unrhyw rai o'ch pryderon drwy linell gymorth Hourglass. Mae Hourglass yn elusen sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â cham-drin ac esgeuluso pobl hŷn. Gallwch gysylltu â'r llinell gymorth dros y ffôn, drwy neges destun, neges wib neu'r drwy'r e-bost (gweler tudalen 26).



## Camau nesaf

Darllenwch ffeithlen Age Cymru **Diogelu pobl hŷn yng Nghymru rhag cam-drin ac esgeulustod.**

# Sefydliadau defnyddiol

## Age Cymru

Rydym yn rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl yn hwyrach mewn bywyd drwy ein llinell gyngor ddwyieithog, cyhoeddiadau ac ar-lein.

I ddarganfod a oes cangen leol o Age Cymru yn agos atoch chi ac i archebu copïau am ddim o'n canllawiau gwybodaeth a'n ffeithlenni, ffoniwch:

**Cyngor Age Cymru 0300 303 44 98 (9am i 4pm, ddydd Llun i ddydd Gwener) neu anfonwch e-bost at: [cyngor@agecymru.org.uk](mailto:cyngor@agecymru.org.uk)**

Os yw'n well gennych, gallwch gysylltu â ni drwy lythyr yn: Age Cymru, Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD.

Gwefan: [www.agecymru.org.uk/advice](http://www.agecymru.org.uk/advice)

Yn Lloegr, cysylltwch ag  
**Age UK Advice:** 0800 678 1602  
[www.ageuk.org.uk](http://www.ageuk.org.uk)

Yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch ag  
**Age NI Advice Service:** 0808 808 7575  
[www.ageni.org](http://www.ageni.org)

Yn yr Alban, cysylltwch ag  
**Age Scotland:** 0800 124 4222  
[www.agescotland.org.uk](http://www.agescotland.org.uk)

## **Cyngor ar Bopeth**

Rhwydwaith cenedlaethol o ganolfannau cyngor am ddim sy'n cynnig cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim, naill ai wyneb yn-wyneb neu dros y ffôn.

Ffôn: 0800 702 20 20

I gael manylion am eich canolfan Cyngor ar Bopeth (CAB) agosaf, ewch i [www.citizensadvice.org.uk/cymraeg](http://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg)

## **Y Llys Gwarchod**

Yn rhoi gwybodaeth am gael eich penodi'n ddirprwy i rywun sydd wedi colli galluedd meddyliol.

Ffôn: 0300 456 4600

[www.gov.uk/courts-tribunals/court-of-protection](http://www.gov.uk/courts-tribunals/court-of-protection)

## **Hourglass**

Sefydliad cenedlaethol sy'n cynnig llinell gymorth am ddim i unrhyw un sy'n poeni am gamdriniaeth neu esgeulustod pobl hŷn.

Ffôn: 0808 808 8141

[www.wearehourglass.org](http://www.wearehourglass.org)

## **Cymdeithas y Cyfreithwyr**

Y corff sy'n cynrychioli cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr. Cysylltwch â nhw i ddod o hyd i gyfreithiwr lleol.

[www.lawsociety.org.uk](http://www.lawsociety.org.uk)

## **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus**

I gael gwybodaeth am wneud atwrneiaeth arhosol neu wneud cais i'r Llys Gwarchod.

Ffôn: 0300 456 0300

[www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-public-guardian](http://www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-public-guardian)

## ***Solicitors for the Elderly***

Sefydliad cenedlaethol, annibynnol o gyfreithwyr sy'n arbenigo mewn ystod eang o faterion cyfreithiol sy'n effeithio ar bobl hŷn. Cysylltwch â nhw am gymorth i ddod o hyd i gyfreithiwr.

Ffôn: 0844 567 6173

[www.sfe.legal](http://www.sfe.legal)

# Helpwch ni i fod yna i rywun arall

Rydym yn gobeithio y bu'r canllaw hwn yn ddefnyddiol i chi. Pan fydd pethau'n anodd, mae mor bwysig cael cefnogaeth. Wyddoch chi y gallech chi ein helpu i gyrraedd rhywun arall sydd angen ychydig o gymorth?

**1 Gwirfoddolwch gyda ni**  
Mae pob rôl wirfoddol yn Age Cymru yn ein cefnogi i wella bywydau ac yn ein helpu i weithio tuag at Gymru oed gyfeillgar. Fodd bynnag, os hoffech gymryd rhan, byddem yn falch iawn o glywed gennych – [www.agecymru.org.uk/volunteer](http://www.agecymru.org.uk/volunteer)

**2 Cofiwch amdanom yn eich ewylllys**  
Trwy roi rhodd i Age Cymru yn eich ewylllys, gallwch wneud llawer i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y gefnogaeth maent yn ei haeddu yn y blynyddoedd sydd i ddod. Gadewch fyd ychydig yn llai unig – [www.agecymru.org.uk/legacy](http://www.agecymru.org.uk/legacy)

**3 Rhowch rodd i ni**  
Mae pob rhodd a gawn yn ein helpu i fod yno i rywun pan fydd ein hangen.  
Mae £10 yn cyfrannu tuag at arbenigwr cwbl hyfforddedig i ymchwilio i ymholiadau gan bobl sy'n ffonio ein gwasanaeth gwybodaeth a chyingor am ddim.

Mae £20 yn cyfrannu tuag at gost cynhyrchu ein canllawiau gwybodaeth a'n ffeithlenni i bobl hŷn.

I gyfrannu, ffoniwch ni ar  
**029 2043 1555** neu ewch i  
[www.agecymru.org.uk/donate](http://www.agecymru.org.uk/donate)

**Diolch!**



# Beth ddylwn i ei wneud nawr?

I gael mwy o wybodaeth am y materion sydd wedi'u cynnwys yn y canllaw hwn, neu i archebu unrhyw rai o'n cyhoeddiadau, ffoniwch Cyngor Age Cymru ar **0300 303 44 98**.

Efallai yr hoffech chi ddarllen rhai o'n canllawiau perthnasol eraill hefyd, fel:


- **Meddwl am ddiwedd eich oes**
- **Ewyllysiau a chynllunio ystad**
- **Byw gyda chamau cynnar dementia**



**0300 303 44 98**

**[www.agecymru.org.uk](http://www.agecymru.org.uk)**

Os nad yw manylion cyswllt eich cangen leol o Age Cymru yn y blwch isod, ffoniwch **0300 303 44 98**.



Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig rhif 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig: Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners, Trident Court, East Moors Road, Coerdydd, CF24 5TD. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid lleol Age Cymru i ddarparu cymorth uniongyrchol i dros filiwn o bobl bob blwyddyn.